sportwales chwaraeoncymru

# AROLWG CHWARAEON YSGOL
# YMGYNGHORIAD RHANDDEILIAID 2020
# CRYNODEB GWEITHREDOL

MAWRTH 2021

CHWARAEON CYMRU






chwaraeon.cymru

/SportWales
@sport_wales
sport_wales

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 02 |
| Beth wnaethom ni | 03 |
| Themâu Cyffredinol | 04 |
| COVID-19 | 05 |
| Crynodeb o'r adborth a'r ymrwymiadau o dan bob thema | 07 |
| Edrych ar opsiynau i wella neu ychwanegu cwestiynau arolwg newydd | 08 |
| Datblygu ystod o bynciau ymchwil ansoddol newydd | 10 |
| Dileu cynnwys arolwg llai pwysig gan ei bod yn ddymunol cadw amser yr arolwg i gyn lleied â phosib | 11 |
| Datblygu a phrofi holiadur newydd a chreu fersiwn hawdd ei ddarllen yn seiliedig ar y cynnwys hwn | 12 |
| Gwella'r ffordd rydym yn cyflwyno'r arolwg | 13 |
| Sicrhau cymaint o adrodd yn ôl â phosib ar ganlyniadau'r arolwg ar y ddarpariaeth | 14 |
| Allbynnau'r Arolwg: Ceisio cadw lefel y manylder ond ystyried cyfuno defnyddiol newydd ar y data | 16 |
| Gwell cyfarwyddyd a strategaeth gyfathrebu | 17 |

AROLWG CHWARAEON YSGOL - YMGYNGHORIAD RHANDDEILIAID 2020 - CRYNODEB GWEITHREDOL





# CYFLWYNIAD

**YN DILYN AROLWG CHWARAEON YSGOL 2018, NODWYD BOD GAN BARTNERIAID SY'N DEFNYDDIO, YN CYFLWYNO AC YN CEFNOGI'R AROLWG SYNIADAU A ALLAI WELLA'R AROLWG I BAWB O BOSIB. FELLY, YN UNOL Â'R AMSERLEN AR GYFER AROLWG 2021, RHWNG MIS AWST A MIS HYDREF 2020, AETHOM ATI I GYNLLUNIO A CHYNNAL YMGYNGHORIAD ER MWYN GWRANDO AR Y SYNIADAU HYN A CHEISIO COFNODI CYMAINT O DDYSGU Â PHOSIB GAN RANDDEILIAID.**

Mae Chwaraeon Cymru wedi gweld bod proses ymgynghori'r arolwg chwaraeon ysgol wedi bod yn hynod fuddiol. Gwerthfawrogir yr adborth, y sylwadau adeiladol a'r atebion a gynigiwyd gan bartneriaid drwy'r holiadur ar-lein a'r trafodaethau byrddau crwn a byddant yn cyfrannu llawer fel sail i'r arolwg nesaf, ac yn ei wella.

Gyda'i gilydd, roedd yr adborth yn helaeth, ac er bod gwelliannau clir yn hawdd eu hadnabod a'u gweithredu yn aml, roedd safbwyntiau croes hefyd. Er mwyn rhoi sylw i'r gwrthdaro hwnnw, rydym wedi cadw at yr egwyddorion cyffredinol canlynol sy'n rhoi eglurder i faterion penodol, ond sydd, yn bwysicach, yn seiliedig ar y cyfoeth o adborth a ddarparwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

1. Arolwg byrrach, symlach a haws ei gwblhau, gan ganolbwyntio ar gwestiynau sydd fwyaf defnyddiol a pherthnasol i Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid.
2. Cyn lleied o darfu â phosib ar eiriad cwestiynau ac opsiynau ymateb pan fo hynny'n bosib, gan gynnal integriti data tueddiadau.
3. Cynhyrchu a dosbarthu adroddiadau, allbynnau ac adnoddau ychwanegol cyn gynted â phosib, gan ganiatáu ar gyfer defnyddio'r wybodaeth ar amser priodol.
4. Rhaid i'r newidiadau sydd i'w gweithredu gydymffurfio â chanllawiau ystadegau swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru.

Mewn termau syml iawn, mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'n hymrwymiadau yn rhoi sylw i un o'r tri phwynt canlynol:

1. Hygyrchedd (amseriad, hyd ac iaith briodol – fel ei fod yn hawdd i bawb ei gwblhau)
2. Dilysrwydd (methodoleg / canlyniadau arolwg mae partneriaid yn ymddiried ynddynt)
3. Cefnogaeth gan ysgolion (fel bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r arolwg ac yn defnyddio eu data / gwybodaeth i greu newid ystyrlon)

1 https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/regulatory-guidance-publishing-official-statistics-and-national-statistics/

2 https://gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610565118/statistics-and-research-release-practices-protocol.pdf

# BETH WNAETHOM NI

Rhwng mis Awst a mis Hydref 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phartneriaid ynghylch cylch nesaf yr Arolwg Chwaraeon Ysgol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- **Arolwg ar-lein** yn gofyn am adborth ar newidiadau penodol a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer y dyfodol. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 3 Awst ac 14 Medi a chafwyd 26 o ymatebion gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Cyrff Rheoli Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, sefydliadau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.
- Tair **'Trafodaeth Bwrdd Crwn Ar-lein'** i gael adborth ac awgrymiadau ehangach mewn perthynas â'r arolwg. Mynychodd mwy na hanner cant o bartneriaid y tri sesiwn yma.
- Casglwyd adborth ychwanegol **drwy e-bost** hefyd.

Sylwer: Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd yn ymarferol gofyn i athrawon, rhieni a phlant gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.
Roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu pedair agwedd allweddol ar yr arolwg:

### #1 GWAITH MAES
casglu'r data, pan mae'r arolwg ar agor, a chesglir ymatebion gan fwy na 1,000 o ysgolion ledled Cymru.

### #2 HOLIADUR CYFRANOGIAD
yr arolwg yn cael ei lenwi gan fyfyrwyr sy'n cofnodi pa chwaraeon maent wedi cymryd rhan ynddynt a pha mor aml.

### #3 HOLIADUR DARPARIAETH
mae un athro ym mhob ysgol yn cwblhau ail arolwg i gofnodi pa chwaraeon a chyfleusterau sydd ar gael mewn ysgolion, sawl munud o chwaraeon mae plentyn yn cael mynediad iddynt mewn wythnos, ac i gael amrywiaeth o safbwyntiau am ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol.

### #4 ALLBYNNAU AC ADRODD YN ÔL
unwaith y bydd yr arolwg wedi'i gwblhau, caiff y data eu pwysoli a'u gosod mewn setiau data ac adnoddau cyfathrebu defnyddiol i helpu ysgolion i gynllunio a datblygu eu darpariaeth chwaraeon.





# THEMÂU CYFFREDINOL

Rydym wedi creu adroddiad canlyniadau llawn, sy'n manylu ar bob elfen o'r adborth ac yn manylu ar sut rydym yn bwriadu newid yr arolwg a'i brosesau os yw hynny'n bosib. Rydym wedi edrych ar ble mae adborth yn gwrthdaro ac wedi rhoi rhesymau pam nad ydym wedi gallu bwrw ymlaen â rhai syniadau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r adborth wedi cael ei ystyried, a thrwy gydol y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithredu neu'n ymchwilio i sut i wneud y newidiadau.

Rydym yn rhagweld bod llawer o waith ynghlwm wrth hyn ac er mai ein bwriad yw cyflawni pob newid rydym wedi ymrwymo iddo, byddwn yn rhyddhau dogfen gryno o newidiadau sydd wedi'u gweithredu pan fyddwn yn lansio'r gwaith maes ar gyfer yr arolwg nesaf, i gadarnhau'r newidiadau sydd wedi'u gwneud.

Rydym wedi nodi'r themâu allweddol sydd wedi deillio o adborth yr ymgynghoriad:

- ***EDRYCH AR OPSIYNAU I WELLA NEU YCHWANEGU CWESTIYNAU AROLWG NEWYDD.***
- ***CAEL GWARED AR GYNNWYS AROLWG LLAI PWYSIG GAN EI BOD YN DDYMUNOL CADW AMSER YR AROLWG I GYN LLEIED Â PHOSIB.***
- ***DATBLYGU AMRYWIAETH O BYNCIAU YMCHWIL ANSODDOL NEWYDD.***
- ***DATBLYGU A PHROFI HOLIADUR NEWYDD A CHREU FERSIWN HAWDD EI DDARLLEN YN SEILIEDIG AR Y CYNNWYS HWN.***
- ***ALLBYNNAU'R AROLWG: CEISIO CADW LEFEL Y MANYLDER OND YSTYRIED CYFUNO DEFNYDDIOL NEWYDD AR Y DATA.***
- ***ADRODD I'R EITHAF AR GANLYNIADAU'R AROLWG AR Y DDARPARIAETH.***
- ***GWELLA'R FFORDD RYDYM YN CYFLWYNO'R AROLWG.***
- ***GWELL CYFARWYDDYD A STRATEGAETH GYFATHREBU.***

# COVID-19

Ers i ni gynnal yr arolwg, fodd bynnag, mae un newid pwysig wedi digwydd oherwydd parhad pandemig Covid-19. Roedd yr arolwg i fod i gael ei lansio ym mis Ebrill 2021, ac o ystyried ei bod yn aneglur o hyd adeg cyhoeddi canlyniadau'r arolwg pryd bydd ysgolion yn dychwelyd i gyfranogiad llawn amser a pha effaith a gaiff hyn ar allu ysgolion i hwyluso chwaraeon plant fel y byddent wedi'i wneud cyn y pandemig, yn ogystal â'r ffaith bod y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi cael ei heffeithio'n fawr gan yr argyfwng, mae'n amlwg y byddai'n annoeth ac yn anymarferol hefyd o bosib ei gynnal o fewn yr amserlen arfaethedig.

Felly, y prif ymrwymiad cyntaf yw ein bod wedi gohirio'r arolwg tan 2022.









# CRYNODEB O'R ADBORTH A'R YMRWYMIADAU O DAN BOB THEMA





## EDRYCH AR OPSIYNAU I WELLA NEU YCHWANEGU CWESTIYNAU AROLWG NEWYDD

Yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yw'r astudiaeth arweiniol o gyfranogiad plant a'r galw am weithgareddau corfforol mewn ysgolion. Am y rheswm hwn, mae'r llu o wybodaeth y gellid ei chasglu gan blant yn eithaf digyfyngiad. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr yn ein hymgynghoriad gwestiynau newydd neu amrywiadau ar gwestiynau a fyddai'n ddefnyddiol i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o bob maes cyfranogiad a galw.

Fodd bynnag, cawsom adborth hefyd a oedd yn tynnu sylw at y gwaith ychwanegol yr oedd yr arolwg yn ei greu i ysgolion ac athrawon, a bod myfyrwyr eisoes yn teimlo bod hyd yr arolwg yn heriol.

Felly, rydym wedi ymrwymo i adolygu'r holl gwestiynau sydd wedi cael eu hawgrymu, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu gofyn eisoes, er mwyn deall beth gellir ei ychwanegu neu ei wella, a beth gellir ei dynnu allan er mwyn hwyluso hyn, heb golli gormod, i sicrhau bod cadernid arolwg tracio'n cael ei gynnal.







# DATBLYGU YSTOD O BYNCIAU YMCHWIL ANSODDOL NEWYDD

Yn yr un modd â'r ceisiadau i ychwanegu cwestiynau ychwanegol, cynigiwyd nifer o feysydd ymchwil newydd a fyddai'n ddefnyddiol. Cynigiwyd chwe maes allweddol: cymhelliant i gymryd rhan / rhoi'r gorau iddi – deall 'pam'; manylion galw cudd – ym mha fformat yr hoffai plant gymryd rhan mewn chwaraeon; llwybrau at gyfranogiad; cadw – a yw plant wedi dal ati i chwarae camp o un flwyddyn i'r llall; mwynhad o chwaraeon unigol; ac yn olaf, y cyfleusterau sydd ar gael i bob grŵp blwyddyn.

Mae'n bosib bod pob un o'r pynciau hyn yn brosiect ymchwil ansoddol eithaf helaeth ar eu liwt eu hunain, ond rydym yn teimlo y gallant gefnogi gwell dealltwriaeth yn y tymor hir o gyfranogiad plant, gan alluogi twf a chynnal plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Felly, byddwn yn adolygu i weld a oes modd i ni ymgymryd â'r prosiectau hyn ein hunain neu a oes partneriaid eraill y gallwn weithio gyda hwy er mwyn deall mwy am bob pwnc.



# DILEU CYNNWYS AROLWG LLAI PWYSIG GAN EI BOD YN DDYMUNOL CADW AMSER YR AROLWG I GYN LLEIED Â PHOSIB

Dywedodd nifer o ymgynghoreion wrthym bod plant yn teimlo bod yr amser roedd yr arolwg yn ei gymryd yn llafurus ac yn aml yn arwain at glicio drwodd er mwyn gorffen cyn gynted â phosib. Clywsom hefyd bod rhai o'r ffyrdd y cyflwynwyd cwestiynau, fel pa chwaraeon oedd plentyn wedi cymryd rhan ynddynt a pha mor aml, yn golygu nad oeddent mor effeithiol o ran casglu data manwl gywir. Hefyd dywedodd rhai ymgynghoreion wrthym am yr anawsterau a gawsant o ran sicrhau bod ganddynt y nifer gofynnol o blant i gymryd rhan oherwydd yr adeg o'r flwyddyn.

Mae gwrthdaro yma lle bydd is-gategorïau o chwaraeon yn gwneud yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu o'r arolwg yn fwy cyfoethog i chwaraeon ddeall cyfranogiad, fodd bynnag, bydd hyn hefyd yn golygu bod yr arolwg yn mynd yn hirach, yn ogystal â phlant nad ydynt o reidrwydd yn deall y gwahaniaeth rhwng is-gategorïau gwahanol, neu fod nifer y cyfranogwyr yn rhy fach i hwyluso casgliadau ystyrlon.

Felly, rydym eisiau edrych ar sut gellir dileu cynnwys arolwg llai pwysig er mwyn cadw amser yr arolwg yn llai, ond hefyd i wella'r modd y caiff y cwestiynau eu cyflwyno er mwyn galluogi'r arolwg i fod mor gadarn â phosib, ac i sicrhau y gall cymaint o blant â phosib gymryd rhan.







# DATBLYGU A PHROFI HOLIADUR NEWYDD A CHREU FERSIWN HAWDD EI DDARLLEN YN SEILIEDIG AR Y CYNNWYS HWN

Mae nifer o wahanol ffyrdd o gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr arolwg wedi cael eu treialu dros gylchoedd diweddaraf yr arolwg. Fodd bynnag, nid oedd modd cymharu'r rhain â'r 'prif' arolwg, sy'n groes i werthoedd a bwriadau strategol Chwaraeon Cymru a'i weledigaeth o gynhwysiant. Ar ôl ymchwilio i'r gallu i gymharu setiau data hawdd eu darllen â rhai heb fod yn setiau hawdd eu darllen, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw astudiaethau cadarn o hyn, ac felly, gan weithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru, rydym yn gobeithio treialu setiau data i ddeall a ellir cymharu'r ddau yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol mai arolwg hygyrch i bawb yw'r opsiwn mwyaf priodol, sy'n cydnabod y gall plant o oedrannau ysgol iau ac eraill deimlo bod arolwg hawdd ei ddarllen yn haws ei ddeall, yn ogystal â thechnoleg fel iPads sy'n golygu y byddai arolwg sgrin cyffwrdd a lluniau'n haws i bawb. Byddwn felly yn blaenoriaethu'r ymchwil a'r datblygiad hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



# GWELLA'R FFORDD RYDYM YN CYFLWYNO'R AROLWG

Mae amseriad yr arolwg yn arbennig o anodd i ysgolion, gan ei fod yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf. Mae llawer o ysgolion sy'n cefnogi eu myfyrwyr hŷn yn eu harholiadau TGAU yn teimlo bod amser yn brin ac yr hoffent iddo gael ei gynnal ar amser gwahanol. Am nifer o resymau gwahanol, fel amseriad cyhoeddi data cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD), yr ydym yn ei ddefnyddio i bwysoli'r arolwg chwaraeon ysgol yn ei erbyn, a'r angen am ddeall profiadau'r disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd maent ar fin ei chwblhau, mae'r amseriad yn eithaf anodd ei newid. Fodd bynnag, byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o'i lansio ychydig wythnosau'n gynharach, gan roi mwy o amser i ysgolion gymryd rhan. Rydym hefyd eisiau darparu cefnogaeth ychwanegol cyn y lansiad, gan sicrhau bod y partneriaid sy'n helpu i gyflwyno'r arolwg mewn ysgolion yn barod, a bod rhanddeiliaid pwysig fel Cyfarwyddwyr Addysg ac Estyn yn ymwybodol o lansiad yr arolwg.

Roeddem yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hapus gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd gennym ar eu cyfer, fel ein llinell gymorth dros y ffôn a'n system fonitro fyw. Gallwn fynd ymhellach drwy greu dolenni ffug a chyfathrebu ag awdurdodau lleol ac ysgolion ymlaen llaw, i roi amser iddynt gynllunio, ac rydym eisiau sicrhau bod ein cefnogaeth yn gyson ac yn gefnogol. Yn olaf, byddwn yn ceisio darparu arfer gorau lle bo hynny'n bosib, i helpu pob ysgol i ddeall pwysigrwydd yr arolwg.

O ran y gefnogaeth a roddwyd i athrawon, roedd rhai ymatebwyr yn adlewyrchu bod problemau weithiau o ran sut roedd athrawon yn dehongli cwestiynau wrth iddynt gefnogi plant i gwblhau'r arolwg. Yn benodol, gall cofnodi data ethnigrwydd fod yn faes anodd i athrawon gefnogi myfyrwyr yn ei gylch. Yn ein gwaith strategol presennol sydd â'r nod o leihau anghydraddoldeb, mae cofnodi ethnigrwydd myfyrwyr yn gynyddol bwysig. Rydym eisiau cefnogi athrawon i'w gyflwyno a sicrhau eu bod yn hyderus i gefnogi myfyrwyr.
Yn ddiweddar, gofynnodd arolwg ysgolion Sport England i ddysgwyr fynd â'r arolwg gartref oherwydd y pandemig, sy'n cefnogi'r posibilrwydd y gallai rhieni gefnogi eu plant i ateb y cwestiwn hwn yn fwy cywir.





# SICRHAU CYMAINT O ADRODD YN ÔL Â PHOSIB AR GANLYNIADAU'R AROLWG AR Y DDARPARIAETH

Rydym yn gofyn i un athro ym mhob ysgol gwblhau'r arolwg ar y ddarpariaeth er mwyn creu cyd-destun i atebion y disgyblion yn yr arolwg cyfranogiad. Cafwyd nifer o sylwadau am y dull hwn o weithredu, yn ymwneud â'r wybodaeth y gallai un athro ei chael am y cyfleusterau sydd ar gael a nifer y munudau o gyfranogiad mewn chwaraeon gan blant mewn wythnos. Y prif gynnig sydd gennym ni yma yw ein bod yn argymell i athrawon eu bod yn trafod eu hatebion gyda chydweithwyr ar draws yr ysgol, i sicrhau bod posib cael darlun manwl gywir. Byddai gofyn i fwy nag un athro ei gwblhau yn llafurus ac yn arwain at anghysondeb o bosib.

Cafwyd nifer o sylwadau hefyd a oedd yn ymwneud â chwestiynau sydd naill ai eisoes yn bodoli neu a allai, gyda newidiadau bach, sicrhau bod y data a ddarperir yn fwy defnyddiol. Prif ddefnydd yr arolwg darpariaeth mewn blynyddoedd blaenorol fu adrodd ar nifer y munudau o addysg gorfforol mae plant yn eu derbyn bob wythnos. Fodd bynnag, mae llawer o ddefnyddiau posib eraill ar gyfer y data, ac o ystyried nad oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o'r cwestiynau a ofynnwyd, byddwn yn ceisio sicrhau cymaint o adrodd yn ôl a defnydd â phosib o ganlyniadau'r arolwg.










# ALLBYNNAU'R AROLWG: CEISIO CADW LEFEL Y MANYLDER OND YSTYRIED CYFUNO DEFNYDDIOL NEWYDD AR Y DATA

Trafododd llawer o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad y ffordd y cafodd y data eu cynhyrchu a'u rhannu, gyda rhai eisiau mwy o dablau data a dadgyfuno setiau data ymhellach i sicrhau mwy o fanylder mewn pwnc penodol. Roedd y ffordd y caiff data eu defnyddio gan ysgolion, awdurdodau lleol a rhanbarthau yn destun adborth hefyd, yn bennaf mewn perthynas ag amseriad cyhoeddi adroddiadau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau adroddiadau ar unwaith ar gyfer ysgolion, a fydd yn eu helpu i gynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac yn cefnogi unrhyw hwyluso o ran cyflwyno ar lefel leol, y gallai partneriaid gefnogi ysgolion ag ef o bosib.

Byddwn hefyd yn ystyried a allwn gynhyrchu dangosfwrdd y bydd partneriaid yn gallu ei ddefnyddio i adolygu'r data drwy hidlyddion sy'n ddefnyddiol iddynt, gan ddarparu dolenni gwe at setiau data unigol yn ogystal â thiwtorials a hyfforddiant ar sut i weithio drwy'r tablau; a chysoni data â'r cwricwlwm newydd os yw hynny'n bosib er mwyn helpu pob partner wrth gynllunio.

# GWELL CYFARWYDDYD A STRATEGAETH GYFATHREBU

Gellid gwella'r ymwybyddiaeth o'r arolwg a'i ganlyniadau, boed hynny o'r arolwg darpariaeth neu'r wybodaeth am yr arolwg ymhlith gwahanol grwpiau. Rydym yn bwriadu integreiddio ein cyfathrebu â'r holl bartneriaid o ddechrau un y broses, gan ryddhau cyfarwyddyd a nodiadau gwybodaeth am yr arolwg ei hun a'r ffordd rydym yn adrodd yn ôl. Nid oes rheswm i ysgolion beidio â derbyn templed eu cynllun gweithredu ar ddechrau'r broses, er mwyn galluogi cynllunio cynharach a chynorthwyo gyda dysgu o ganlyniadau pob ysgol.

Rydym wedi derbyn llawer o sylwadau ar y raffeg gwybodaeth a'r cyfryngau eraill rydym yn eu defnyddio i gyfleu'r canlyniadau, ac rydym eisiau sicrhau bod y rhain yn hygyrch i bob cynulleidfa a fydd yn eu defnyddio. Rydym wedi cynnal sesiynau o'r blaen gydag unrhyw bartneriaid oedd eisiau deall eu canlyniadau'n well a byddwn yn parhau i gynnig hyn. Byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu â phartneriaid ac ysgolion yn gynharach i ddeall pa allbynnau fyddai fwyaf defnyddiol iddynt, gan ddatblygu adnoddau os yw hynny'n bosib ac yn briodol. Yn olaf, rydym yn awyddus i lunio argymhellion gyda chyfeirio priodol ar ôl i'r arolwg ddod i ben.

**YN GYFFREDINOL, RYDYM YN FALCH O ALLU ADOLYGU LLAWER O'R PETHAU A GODWYD GYDA NI YN YR YMGYNGHORIAD. MAE'R [ADRODDIAD LLAWN AR Y CANLYNIADAU] YN DARPARU EIN RHESYMEG A'R DADANSODDIAD SYDD TU ÔL I BOB MAES A ADOLYGWYD GENNYM.**





sportwales chwaraeoncymru

chwaraeon.cymru

/SportWales
@sport_wales
sport_wales